GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Canolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol | Primary and Community Care Development and Innovation Hub
Datblygu Gofal Sylfaenol yng Nghymru | Developing Primary Care in Wales

# GWEITHIO MEWN CLYSTYRAU YNG NGHYMRU

## Adnoddau i'ch helpu i ddatblygu eich clwstwr

*Rhan o gyfres o 3 llawlyfr ar gyfer Arweinwyr Clystyrau newydd a staff eraill sy'n gweithio mewn neu gyda chlystyrau*

## Cynnwys


**A: Gweithio mewn clwstwr**

- Cefndir clystyrau gofal sylfaenol 3
- Diffiniad 3
- Strwythurau 3
- Pwy yw pwy? 4
- Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru 6
- Trefniadau llywodraethu clystyrau 7
- Cyllido 9
- Cyfarfodydd clwstwr 10
- Datblygu gwaith ehangach mewn clystyrau 13
- Cyflogi staff ar gyfer clystyrau 13
- Timau amlddisgyblaethol 16
- Presgripsiynwyr / presgripsiynu cymdeithasol 19
- Trefniadau llywodraethu gwybodaeth 20

**B: Offer, technegau ac adnoddau defnyddiol**

- Defnyddio data i nodi angen y boblogaeth 22
- Cynllunio'r gweithlu 30
- Cynigion ac achosion busnes 33
- Gwaith prosiect 37
- Gwerthuso 40
- Gwella ansawdd 43
- Rhestr geirfa 48

## Cefndir clystyrau gofal sylfaenol

Cyflwynwyd y cysyniad o glystyrau gofal sylfaenol, lle mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cael eu cydlynu ar sail ardaloedd daearyddol, am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2010. Datblygwyd y polisi gyda Rhaglen Gyflenwi Strategol y Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol Llywodraeth Cymru, ***Gosod y Cyfeiriad*** lle y cafodd gwasanaethau eu cydlynu gan ddilyn ôl-troed ardaloedd lleol sy'n gwasanaethu poblogaethau o rhwng 30,000 a 50,000. Nodwyd bod practisau meddygon teulu yn hollbwysig ar gyfer datblygu clystyrau, drwy weithio gyda phartneriaid i asesu a chyflawni angen lleol. Sefydlwyd trefniadau i bractisau meddygon teulu gydweithio fel clystyrau i ddatblygu gwasanaethau yn eu hardaloedd lleol yng Nghymru ym mis Ebrill 2014.

## Diffiniad

*Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal at ei gilydd ar draws ardal ddaearyddol, ardaloedd sy'n gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.*

Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2018

## Strwythurau

Mae 64 o glystyrau gofal sylfaenol ar draws Cymru gyfan. Mae'r ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth sy'n cael ei chwmpasu gan glwstwr yn cael eu pennu gan fyrddau iechyd lleol unigol. Mae nifer y clystyrau ym mhob ardal bwrdd iechyd yn amrywio e.e. mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 14 o glystyrau a dim ond 3 sydd ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae rhai byrddau iechyd wedi rhannu'r clystyrau ymhellach i ardaloedd llai ac wedi rhoi teitlau gwahanol iddynt e.e. Rhwydweithiau Gofal yn y Gymdogaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.





Mae manylion penodol am glystyrau unigol neu glystyrau yn ôl bwrdd iechyd ar gael drwy fap rhyngweithiol a dolenni byrddau iechyd unigol drwy ***Gofal Sylfaenol Un***.

## Pwy yw pwy?

Fel Arweinydd Clwstwr, mae yna unigolion allweddol yn ardal eich bwrdd iechyd y byddai'n ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â nhw neu ddod i'w hadnabod (y siart isod). Cyflogeion neu aelodau o bwyllgorau eich bwrdd iechyd yw'r rhain yn bennaf ond maent hefyd yn cynnwys pobl sy'n gweithio yn eich ardal chi ond sy'n cael eu cyflogi gan sefydliadau eraill.

***Siart o bobl o ddiddordeb mewn byrddau iechyd ****




*Nid yw'r siart yn rhestru pob rôl yn y bwrdd iechyd.


Mae gwybodaeth am Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol unigol ar gael yn:

- Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cwm Taf Morgannwg (Rhondda Cynon Taf a Merthyr)
- Gwent
- Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru
- Powys
- Gorllewin Morgannwg (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
- Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion)

Mae gan wahanol fyrddau iechyd strwythurau gwahanol. Byddwch yn canfod bod yr hierarchaeth ar gyfer y swyddi yn y blychau tywyll yn amrywio rhwng y byrddau iechyd, er hynny bydd pobl y gallech fod eisiau ymgyfarwyddo â hwy. Mae'n werth canfod manylion am aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cwmpasu eich ardal chi.

Mae'r map isod yn darparu dolenni, pan fyddant ar gael, i dimau byrddau iechyd unigol. Ar gyfer rhai timau, bydd y ddolen ond ar gael drwy dudalennau mewnrwyd GIG Cymru (HOWIS). Ar gyfer timau eraill, pan nad oes unrhyw wybodaeth ar gael ar-lein, efallai y byddwch yn dymuno cysylltu â'r bwrdd iechyd a allai ddarparu manylion cyswllt i chi.

**Map o ardaloedd y byrddau iechyd gwahanol a 'phwy yw pwy' yn yr ardal honno**



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Y Tîm Gofal Sylfaenol
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Tîm Gofal Sylfaenol *[mewnrwyd y GIG yn unig]*
- Tîm Diogelu *[mewnrwyd y GIG yn unig]*
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Iechyd Cyhoeddus Lleol
- Tîm Gofal Sylfaenol *[dim dolen ar gael]*

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Gweithredol
- Tîm Gofal Sylfaenol [mewnrwyd y GIG yn unig]
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Tîm Gofal Sylfaenol *[mewnrwyd y GIG yn unig]*
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Local Public Health Team

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Tîm Gofal Sylfaenol *[dim dolen ar gael]*
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


- Aelodau'r Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol
- Tîm Gofal Sylfaenol
- Tîm Diogelu *[dim dolen ar gael]*
- Y Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol

Ym mhob ardal bwrdd iechyd bydd **Rheolwr Datblygu Clystyrau** a/neu **dîm** a fydd yn gallu eich cynorthwyo. Bydd y ddau unigolyn hyn naill ai'n rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol neu'n Benaethiaid Tîm Gwasanaeth. Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd ar gyfer manylion eich Arweinydd/tîm Datblygu Clwstwr.

## Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Mae'r **Model Gofal Sylfaenol i Gymru** (y Model Trawsnewidiol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn flaenorol) yn disgrifio'r dull system gyfan o ymdrin â gofal iechyd a llesiant lleol cynaliadwy a hygyrch. Datblygodd y model o ganlyniad i'r cyd-destun a'r fframwaith a nodir ym mholisi'r llywodraeth ***Ein Cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gofal Sylfaenol i Gymru*** a'r buddsoddiad a ddarparwyd drwy arloesedd a datblygiadau cymorth Llywodraeth Cymru ym maes gofal sylfaenol ar lefel clwstwr, lefel bwrdd iechyd ac ar lefel genedlaethol.

**Ffigur sy'n dangos elfennau'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru**




*Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 2018*

Mae clystyrau yn ganolog i gyflawni'r model a datblygu'r cysylltiadau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r seilwaith cymunedol ehangach i gefnogi gofal iechyd a llesiant a chyflawni nodau pedwarplyg ***Cymru Iachach*****.**

Datblygwyd **Matrics Aeddfedrwydd** ar gyfer clystyrau er mwyn galluogi clystyrau i gynnal hunanasesiad i nodi cynnydd yn erbyn elfennau'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Mae manylion pellach am y model ar gael yn y darlun a'r testun isod. Drwy ddefnyddio'r Matrics, gall clystyrau nodi meysydd i'w datblygu a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni gofal iechyd a llesiant lleol cynaliadwy a hygyrch yn eu hardal.

Mae manylion pellach am elfennau unigol y Model ar gael yma.

## Trefniadau llywodraethu clystyrau

**Beth yw llywodraethu?**

Mae llywodraethu yn derm eang sy'n golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae'n cynnwys arweinyddiaeth, stiwardiaeth, atebolrwydd, sicrwydd, uniondeb, ymddygiad moesol a rheolaeth. Ar gyfer y GIG yng Nghymru, diffinnir llywodraethu fel:

'System atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio, yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain eu pobl i gyrraedd eu hamcanion oddi mewn iddi'.

E-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru

Llywodraethu yw'r ffordd y mae cyrff y GIG yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, mewn ffordd sy'n cynnal y gwerthoedd a sefydlwyd ar gyfer y sector cyhoeddus Cymru.

**Diben a pherthnasedd datblygu clystyrau**

Mae'r egwyddorion llywodraethu yn berthnasol i unrhyw sefydliad; fodd bynnag, mae sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaethol gwahanol ac maent yn wahanol yn nhermau eu strwythur, eu cwmpas a'u hamcanion. Yn 2015, roedd y Cynllun Cenedlaethol Gofal Sylfaenol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gytuno a phennu trefniadau llywodraethu ar lefel Cymru gyfan i gynorthwyo clystyrau i ddatblygu ac aeddfedu.

O ganlyniad, datblygwyd ***Llywodraethu Clystyrau Gofal Sylfaenol 'Canllaw Arfer Da', 2018*** i gynorthwyo byrddau iechyd a Chlystyrau gyda'r trefniadau hyn.

Bydd y rhan fwyaf o'r materion y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt neu eu cwmpasu o ran llywodraethu clystyrau wedi'u nodi yn y canllaw.

Mae'r canllaw wedi'i ategu gan becyn adnoddau, sy'n darparu pecynnau cymorth a thempledi amrywiol a ddatblygwyd yn lleol o amgylch Cymru i gefnogi dulliau llywodraethu clystyrau.

Yn y Canllaw hwn cyflwynir yr egwyddorion i glystyrau eu hystyried er mwyn sicrhau trefniadau llywodraethu da:

| **Egwyddorion allweddol ar gyfer llywodraethu clystyrau** |
|---|
| ▪ Nodi gweledigaeth glir i glystyrau, sy'n hyrwyddo gwerthoedd y sefydliad cyfan<br>▪ Egluro swyddogaethau timau clystyrau, gan ganolbwyntio ar y diben a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau<br>▪ Diffinio'n glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer gweithio mewn clystyrau<br>▪ Datblygu capasiti a gallu'r corff llywodraethu<br>▪ Canolbwyntio ar gynaliadwyedd a llwyddiant y sefydliad/tîm yn y tymor hwy<br>▪ Arddangos proses agored ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli risg yn nhimau'r clwstwr<br>▪ Sefydlu prosesau sicrhau ansawdd effeithiol<br>▪ Arddangos uniondeb drwy safonau moesol ac arweinyddiaeth gadarn sy'n seiliedig ar onestrwydd a gwedduster<br>▪ Dylunio fframwaith atebolrwydd ar gyfer trefniadau adrodd a monitro cynnydd<br>▪ Ymgysylltu â rhanddeiliaid a nodi trefniadau atebolrwydd |

Rhagor o wybodaeth:

- Llywodraethu Clystyrau Gofal Sylfaenol 'Canllaw Arfer Da', 2018
  Pecyn Adnoddau Canllaw Arfer Da 2018
- E-Lawlyfr Llywodraethu GIG Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru

- TH

## Cyllid

Rhoddir cyllid i glystyrau yng Nghymru i wella gofal a llesiant y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Dylai blaenoriaethau lleol gael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau clystyrau sydd, yn eu tro, yn cyd-fynd ag amcanion y Bwrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Bydd gwaith cynllunio ariannol cadarn yn sicrhau bod uchelgeisiau'r cynlluniau yn cael eu cefnogi a'u gwireddu.

Mae'r GIG yng Nghymru yn dibynnu ar arian y trethdalwyr a disgwylir iddo wario'r arian hwnnw'n ddoeth. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn ymddiried yn y gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig wrth wynebu cyfnodau o gyni. Mae ***Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r prif egwyddorion ar gyfer rheoli adnoddau mewn unrhyw sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n datgan bod pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn rhannu cyfrifoldeb personol dros arian y trethdalwyr.

Mae byrddau iechyd yn atebol i Lywodraeth Cymru a defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer uniondeb ariannol. Oherwydd arian cyhoeddus yw hwn, mae'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ar gyfer byrddau iechyd yng Nghymru wedi'u cyflwyno yn y canlynol:

- ***Deddf Cyllid GIG (Cymru) (2014)***;
- ***Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog*** a Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd;
- ***Fframweithiau Cynllunio GIG Cymru*.**

Mae arian yn cael ei ddirprwyo i glystyrau drwy ddyraniad Llywodraeth Cymru i fyrddau iechyd. Mae'r cyllid fel arfer yn cael ei gyfeirio at y maes perthnasol o'r gyllideb yn y sefydliad a chaiff ei reoli gan y bwrdd iechyd. Bydd tîm cyllid y bwrdd iechyd yn cyfeirio clystyrau at arbenigedd perthnasol ac yn darparu cyngor a hyfforddiant ar brosesau ariannol a gweithgareddau cynllunio busnes.

Mae ***Llywodraethu Clwstwr Gofal Sylfaenol 'Canllaw Arfer Da'*** yn darparu manylion pellach am y *Trefniadau Ariannol ar gyfer Clystyrau* gan gynnwys y ddogfen ***cwestiynau cyffredin ar gaffael ar gyfer Arweinwyr Clystyrau gofal sylfaenol.***

## Cyfarfodydd Clwstwr

Mae'r cyfarfod clwstwr yn darparu'r cyfle a'r broses i ddod ynghyd i drafod blaenoriaethau a chytuno ar/monitro camau gweithredu i sicrhau bod gwaith clwstwr yn cael ei gynnal yn effeithiol. Mae'n bwysig felly eich bod yn gwneud y mwyaf o'r amser mewn cyfarfod i ddatblygu rhaglen y clwstwr.

Mae'n werth ystyried pwy i'w wahodd i gyfarfodydd clwstwr. Fel arfer, mae nifer o gyfarfodydd clwstwr yn cynnwys aelodau craidd, a ddylai fynychu pob cyfarfod a grŵp o aelodau ehangach y gellir eu gwahodd i gyfarfodydd yn achlysurol. Bydd aelodaeth graidd y clwstwr yn amrywio ym mhob clwstwr yn yr un modd â'r aelodaeth ehangach.

Gallai aelodaeth graidd ac ehangach ar gyfer cyfarfodydd clwstwr fod yn debyg i'r enghraifft a ddangosir yn y tabl isod:

| Aelodaeth Graidd | Aelodaeth ehangach y clwstwr |
|---|---|
| ▪ Arweinydd y Clwstwr<br>▪ Meddyg teulu o bob practis<br>▪ Rheolwr Practis o bob practis meddygon teulu<br>▪ Swyddog Cymorth / Rheolwr y Clwstwr<br>▪ Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd | ▪ Gweithwyr proffesiynol eraill ar gontract proffesiynol, optometreg, deintyddol, fferylliaeth gymunedol<br>▪ Tîm iechyd cyhoeddus lleol<br>▪ Nyrsys Ardal<br>▪ Cynrychiolydd yr awdurdod lleol<br>▪ Tîm cyllid, cynllunio, rheoli meddyginiaethau y bwrdd iechyd<br>▪ Cyngor iechyd cymuned, aelod lleyg, cynrychiolydd cleifion |

Mae'n bwysig pennu pwy yw eich aelodau craidd a faint o'r aelodau craidd sydd eu hangen i greu cworwm. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno ystyried pryd y bydd yn angenrheidiol a/neu'n briodol i aelod craidd anfon dirprwy os na all fynychu a phwy yw'r person gorau i wneud hynny.

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir i aelodau'r clwstwr ddod i gonsensws pan fydd angen gwneud penderfyniadau. Bydd sefydlu a oes cworwm ar gyfer y cyfarfod a phwy sy'n bresennol yn darparu strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno mabwysiadu system bleidleisio ar gyfer yr achlysuron prin hynny pan na cheir consensws.

Isod mae rhai o'r adnoddau i'ch helpu os ydych yn newydd i gyfarfodydd clwstwr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Elfennau allweddol i'w hystyried wrth greu clwstwr | Gweledigaeth a chenhadaeth i ddisgrifio uchelgeisiau hirdymor gwaith cydweithredol | Cylch gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd clwstwr | System Bleidleisi o Clysytrau |

**Cadeirio cyfarfodydd clwstwr**

Fel Arweinydd Clwstwr, disgwylir i chi gadeirio'r cyfarfod clwstwr, yn ogystal â thrafodaethau grŵp eraill. Bydd angen i chi ystyried tôn, arddull a lleoliad y cyfarfod, sut i reoli'r cyfarfod ac annog pobl i gyfrannu, sut i wneud penderfyniadau a pha reolau y mae angen i chi gadw atynt. Bydd angen dulliau gwahanol ar gyfer cyfarfodydd gwahanol. Mae'r adran hon yn darparu rhai awgrymiadau i chi ar sut i wneud y defnydd gorau o'r amser prin sydd ar gael yn ystod cyfarfodydd drwy waith paratoi da ymlaen llaw, cadeirio effeithiol yn ystod y cyfarfod ac olrhain camau gweithredu ar ôl y cyfarfod.

Y 4 maes allweddol o sgiliau personol er mwyn bod yn Gadeirydd llwyddiannus:

- Gwahaniaethu rhwng eich rôl arferol a'ch rôl fel Cadeirydd;
- Sicrhau bod pobl yn rhyngweithio'n effeithiol;
- Sicrhau bod y grŵp yn cadw ffocws ar gyfer y dyfodol;
- Gwella perfformiad y grŵp yn barhaus.

*Academi Wales*

Mae'n hollbwysig bod pob sefydliad ac asiantaeth rhanddeiliad yn cymryd rhan yn rhaglen waith y clwstwr ac efallai y byddwch yn dymuno ystyried eu cyfranogiad yn y cyfarfodydd clwstwr.

Mae yna wahanol drefniadau mewn gwahanol ardaloedd byrddau iechyd i gefnogi Arweinwyr Clystyrau yn eu gwaith ac mewn cyfarfodydd clwstwr yn benodol. Mae enghreifftiau o'r rolau hyn ar gael yn adran *Clystyrau Gofal Sylfaenol: Rolau a Chyfrifoldebau* ***Llywodraethu Clystyrau Gofal Sylfaenol: Canllaw Arfer Da 2018***.

| **Awgrymiadau ar gyfer Arweinwyr Clystyrau pan fyddant yn cynnal cyfarfodydd clwstwr** | | |
|---|---|---|
| **Cyn** | **Yn ystod** | **Ar ôl** |
| ▪ Sefydlu proses o ofyn i’r aelodau am eitemau ar gyfer yr agenda.<br>▪ Esbonio amcanion y cyfarfod a pharatoi’r agenda.<br>▪ Cadarnhau bod y bobl gywir yn cael eu gwahodd.<br>▪ Gwneud yn siŵr bod yr offer sydd ei angen ar gyfer y cyfarfod wedi’i osod a’i fod ar gael.<br>▪ Penderfynu ar gynllun yr ystafell gyfarfod a lle bydd ymwelwyr yn eistedd, e.e. arddull ystafell fwrdd gyda phawb o amgylch yr un bwrdd.<br>▪ Penderfynu a fydd nodiadau’n cael eu cymryd a phwy fydd yn eu hysgrifennu.<br>▪ Datblygu cynlluniau ar gyfer absenoldeb. Gwnewch yn siŵr bod digon o aelodau yn bresennol er mwyn i’r cyfarfod fynd yn ei flaen ac i wneud penderfyniadau.<br>▪ Paratoi eich hun drwy wybod pa faterion sydd i’w trafod a diben pob eitem ar yr agenda.<br>▪ Paratoi eich cyfraniadau ymlaen llaw.<br>▪ Pan fydd yn bosibl, dosbarthu dogfennau perthnasol i aelodau cyn y cyfarfod.<br>▪ Paratoi eich hun drwy wybod pwy all gyfrannu at drafodaethau’r cyfarfod, sut a phryd. | ▪ Cyrraedd yn brydlon er mwyn cadarnhau bod yr ystafell yn addas.<br>▪ Creu argraff gyntaf dda, croesawu pobl ac egluro beth yw rôl pawb.<br>▪ Amlinellu unrhyw reolau sylfaenol, sut y dylai pobl gyfrannu? Sut y bydd pawb yn cael cyfle i siarad?<br>▪ Llywio trafodaethau mewn ffordd strwythuredig a rheoli’r amser a’r personoliaethau.<br>▪ Annog gwahanol safbwyntiau a barnau.<br>▪ Crynhoi trafodaethau ac unrhyw benderfyniadau a wnaed ar ôl pob eitem ar yr agenda ac ar ddiwedd y cyfarfod er mwyn i bobl fod yn glir ynghylch yr hyn sydd wedi’i gyflawni.<br>▪ Diolch i bawb am eu cyfraniadau.<br>▪ Cytuno ar fanylion ar gyfer unrhyw gyfarfodydd dilynol.<br>▪ Gorffen y cyfarfod yn brydlon. | ▪ Gwneud yn siŵr bod nodiadau/cofnodion y cyfarfod yn cofnodi’r penderfyniadau a’r camau gweithredu allweddol.<br>▪ Gwneud yn siŵr bod unrhyw nodiadau neu gofnodion y cyfarfod yn cael eu dosbarthu i gyfranogwyr ac unrhyw un arall sydd angen gwybod beth y penderfynwyd arno.<br>▪ Cadarnhau’r cynnydd mewn perthynas ag unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod. |

*(Noder: gallai hyn fod yn berthnasol hefyd i eraill yn y timau gofal ardal a gofal sylfaenol)*

## Datblygu gwaith clwstwr ehangach

Mae’r gweithlu’n hollbwysig er mwyn datblygu system iechyd a gofal di-dor yng Nghymru a mynd i’r afael â’r pwysau sy’n wynebu practisau meddygon teulu a gallu clystyrau i ymateb i’r pwysau cynyddol ar wasanaethau’r GIG. Mae yna wahanol fathau o fodelau yn gweithredu ar hyd a lled Cymru i ddarparu gofal gan ddefnyddio’r gweithlu iechyd a gofal ehangach. Mae’r modelau hyn yn cynnwys gweithio fel timau amlddisgyblaethol, ehangu a symud y baich gwaith i rolau proffesiynol gwahanol, datblygu staff anfeddygol i ymgymryd â rolau newydd a gweithio gyda’r trydydd sector i gefnogi gofal yn eu cymunedau a datblygu a chefnogi cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol.

Drwy ddysgu o enghreifftiau ar hyd a lled Cymru, mae datblygu gwaith clwstwr ehangach yn gallu bod yn heriol ac mae’n golygu buddsoddi amser, ond gall helpu gyda’r canlynol:

- Lleihau’r galw i rai cleifion/grwpiau cleifion fod angen gweld meddyg teulu;
- Cynyddu mynediad, ansawdd gofal a darparu apwyntiadau hwy;
- Gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau a’u teuluoedd;
- Gwella’r dull o reoli cleifion ag anghenion cymhleth;
- Cynyddu hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i anghenion y boblogaeth;
- Cynyddu gwydnwch y gweithlu meddygon teulu;
- Trawsnewid y gwasanaethau a ddarperir.

## Cyflogi staff ar gyfer clystyrau

Am nad yw clwstwr yn endid cyfreithiol gwirioneddol, efallai y byddwch yn profi rhwystrau yn y clwstwr o ran cyflogi aelodau o staff a thimau amlddisgyblaethol i weithio ar draws y clwstwr cyfan.

Mae nifer o wahanol opsiynau cyflogaeth yn dod i’r amlwg, sy’n galluogi staff i gael eu recriwtio i weithio ar draws pob practis yn y clwstwr ac yn y gymuned ehangach. Mewn rhyw ffordd, mae’r rhain yn darparu mwy o hyblygrwydd yn nhermau cyflogi meddygon teulu a’r tîm gofal sylfaenol ehangach, megis fferyllwyr, ffisiotherapyddion ac uwch barafeddygon.

Mae’r opsiynau cyflogaeth hyn yn amrywio rhwng clystyrau ac ardaloedd byrddau iechyd ac maent yn cynnwys rhyw elfen o gyfrifoldeb a risg.

Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Staff sy'n cael eu cyflogi yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd
- Staff sy'n cael eu cyflogi gan un practis ar ran yr holl bractisau
- Modelau amgen, er enghraifft ffederasiynau o arferion o fewn, neu rhwng, rhwydwaith clwstwr neu sefydlu'r clwstwr fel statws elusennol.

Waeth pa broses gyflogaeth a ddefnyddir, mae'r ***Fframwaith Llywodraethu Clystyrau Gofal Sylfaenol 'Canllaw Arfer Da'*** yn cynnig awgrymiadau ac arweiniad ar arfer da a lefelau aeddfedrwydd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.

| **Trefniadau Cyflogaeth a Hyfforddiant** | | |
|---|---|---|
| **Lefel 1** | **Lefel 2** | **Lefel 3** |
| *Eglurder ar faterion indemniad ar gyfer holl grwpiau proffesiynol clwstwr*<br><br>*Prosesau cadarn ar gyfer cynllunio a datblygu sefydliadol y clwstwr*<br><br>*Pob aelod o staff y clwstwr yn deall goblygiadau Deddf Diogelu Data newydd (2018) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data* | *Sicrhau bod prosesau recriwtio ar gyfer holl gyflogeion y clwstwr yn effeithlon, yn amserol, ac yn canolbwyntio ar werthoedd ac ymddygiad ymgeiswyr.*<br><br>*Trefniadau a chontractau cadarn ar waith ar gyfer rheoli cyflogeion y clwstwr, gan gynnwys trefniadau pensiwn.*<br><br>*Trefniadau goruchwylio a mentora priodol ar waith i gefnogi pob aelod o staff proffesiynol.* | *Gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u recriwtio i'r clwstwr wedi'u hyfforddi mewn amgylchedd gofal sylfaenol / cymunedol a chanddynt brofiad o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol.*<br><br>*Ymwybyddiaeth o opsiynau a chyfrifoldebau cyflogi o 'gynnal' gwasanaeth ar ran practisau a sefydliadau eraill y clwstwr.* |

**Hawliau cyflogaeth**

Mae’n bwysig eich bod yn deall eich cyfrifoldebau chi a hawliau y bobl yr ydych yn eu cyflogi neu’n bwriadu eu cyflogi, er enghraifft oriau gwaith, gwasanaeth parhaus, mathau o gontractau, pensiynau, absenoldeb â thâl ac yn y blaen.

Mae gwasanaethau Llywodraeth y DU, GOV.UK yn darparu cyngor ar hawliau cyflogaeth.

Mae gan gyflogai hawliau a chyfrifoldebau cyflogaeth ychwanegol nad ydynt yn berthnasol i weithwyr nad ydynt yn gyflogeion.

Mae’r hawliau hyn yn cynnwys yr holl hawliau sydd gan weithwyr a:

- Thâl Salwch Statudol
- absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb a thâl rhiant a rennir (mae gweithwyr yn cael tâl, nid absenoldeb)
- isafswm cyfnodau hysbysiad os bydd eu cyflogaeth yn dod i ben, er enghraifft os bydd cyflogwr yn eu diswyddo
- diogelwch rhag diswyddo annheg
- yr hawl i ofyn i gael trefniadau gweithio hyblyg
- amser i ffwrdd ar gyfer argyfyngau
- Tâl Statudol Dileu Swydd


Gallai fod angen isafswm o gyfnod cyflogaeth barhaus cyn y bydd cyflogai yn gymwys ar gyfer rhai o’r hawliau hyn. Gall contract cyflogaeth ddatgan beth yw hyd y cyfnod cymhwyso hwn. Yn y GIG, mae’r cyfnod cymhwyso hwn yn dueddol o fod yn ddwy flynedd. Mae hyn yn bwysig os ydych yn cyflogi staff ar gontractau tymor byr sy’n cael eu hadnewyddu’n barhaus ac felly sy’n galluogi’r staff i gael hawliau cyflogaeth parhaus ac achosion posibl o ddiswyddiad annheg os caiff y contract ei ddileu ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.

Mae gwybodaeth bellach am gyflogi staff clwstwr ar gael yn:

- Primary Care Cluster Governance, Good Practice Guide Resource Pack v6 - Operational and Professional Management Protocol for Staff Employed by the Local Health Board working in GP Practices

## Timau Amlddisgyblaethol


Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn gwaith timau amlddisgyblaethol yn ystod yr 20 mlynedd ddiwethaf mewn meysydd a lleoliadau clinigol amrywiol. Mae nifer o enghreifftiau o'r rolau sy'n ehangu a'u cyfraniad at waith timau amlddisgyblaethol yng Nghymru a thu hwnt.




Datblygwyd ***Compendiwm o Rolau a Modelau Newydd mewn Gofal Sylfaenol*** fel pecyn rhyngweithiol ar gyfer rhannu arferion da, adnoddau a gwersi a ddysgwyd o bob cwr o Gymru. Mae'r compendiwm yn cynnwys enghreifftiau o swydd-ddisgrifiadau, astudiaethau achos a chysylltiadau ar gyfer cael rhagor o wybodaeth.

Mae gan y modelau timau amlddisgyblaethol newydd a'r rhai sy'n datblygu rai ffactorau cyffredin:

- Maent wedi'u sefydlu o amgylch Practisau Meddygon Teulu;
- Maent yn canolbwyntio ar reoli a chefnogi achosion ar gyfer gofal cymunedol;
- Maent yn cynnwys cyffredinolwyr yn gweithio ochr yn ochr ag arbenigwyr;
- Mae yna asesiadau cydgysylltiedig a chynllunio gofal ar y cyd;
- Pan fydd yn bosibl y bydd cydlynwyr gofal penodedig;
- Mae cofnodion clinigol yn cael eu rhannu.




Cafwyd adroddiad ar y potensial sydd gan dimau amlddisgyblaethol ehangach yng Nghymru i'w gynnig i drawsnewid gofal, triniaeth a mynediad at wasanaethau mewn arolwg diweddar ***Rolau Amlbroffesiwn yn y Model Trawsnewid Gofal Sylfaenol yng Nghymru, 2018***

Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r negeseuon a'r gwersi allweddol ar gyfer unrhyw un sy'n datblygu gwaith amlddisgyblaethol yn ogystal ag argymhellion ar sut i gael y gwerth gorau o'r dull tîm hwn.

## Contractwyr annibynnol

Wrth ddatblygu'r gwaith clwstwr ehangach, efallai y byddwch yn dymuno ystyried y mathau o wasanaethau a fuddsoddir ynddynt, neu y gellir buddsoddi ynddynt a'u cyflenwi gan fferyllwyr cymunedol, practisau deintyddol cymunedol a phractisau optometryddion.

***Y gwasanaethau estynedig a allai fod ar gael yn eich ardal leol***

<table>
<tr><th>Fferylliaeth gymunedol</th><th>Practisau deintyddol cymunedol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">
<ul>
<li>Anhwylderau cyffredin</li>
<li>Rhoi'r gorau i smygu</li>
<li>Brechlyn rhag y ffliw</li>
<li>Atal cenhedlu brys</li>
<li>Camddefnyddio sylweddau</li>
<li>Cyflenwadau brys</li>
<li>Cartrefi gofal</li>
<li>Presgripsiynu annibynnol</li>
</ul>
</td><td>
<ul>
<li>Triniaeth frys</li>
<li>Triniaeth nad yw'n driniaeth frys</li>
<li>Cleifion ag anghenion deintyddol arbennig</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><th>Practisau optometreg</th></tr>
<tr><td>
<ul>
<li>Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru</li>
<li>Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

Ehangu'r portffolios a'r gwasanaethau a gynigir gan y proffesiynau contractwyr lleol a dulliau eraill sy'n golygu na fyddai'n rhaid i gleifion fynd i Bractis Meddyg Teulu os gellir rheoli eu cyflwr neu anhwylder mewn rhan arall o'r maes gofal sylfaenol. Mae ymgyfarwyddo â'r hyn sydd ar gael yn lleol a chyfeirio cleifion yn allweddol er mwyn helpu pobl i ddewis y gwasanaeth iechyd cywir ar gyfer eu hanghenion.

Mae ymgyrch ***Dewis Doeth*** Llywodraeth Cymru yn annog pobl i feddwl am y gwasanaeth iechyd cywir ar gyfer eu salwch neu anaf, a dewis hwnnw. Mae gan y wefan Dewis Doeth ystod o ddeunyddiau a swyddogaeth chwilio ar gyfer gwasanaethau lleol mewn ardal cod post ddiffiniedig.


Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau sydd ar gael i'w gweld yn:
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru
- Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru
- Gwasanaethau Deintyddol y GIG

**Staff Anghlinigol y GIG**

Mae gan y GIG weithlu eang a phellgyrhaeddol y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu a chefnogi gwaith clwstwr. Mae rolau nifer o grwpiau staff anghlinigol y GIG eisoes yn newid, er mwyn cefnogi'r galw cynyddol a ffyrdd newydd o weithio. Efallai y byddwch yn dymuno ystyried sut y gall Rheolwyr Practisau a staff Practisau mewn practis Meddyg Teulu, staff anghlinigol mewn lleoliadau proffesiynol eraill contractwyr y GIG e.e. fferylliaeth gymunedol, practisau deintyddol cymunedol a phractisau optometreg, grwpiau staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a staff y trydydd sector gefnogi'r weledigaeth gwaith clwstwr ehangach yn eich ardal chi.

## Presgripsiynwyr/presgripsiynu cymdeithasol

Bu llawer iawn o ddiddordeb mewn presgripsiynu cymdeithasol a’r cymorth y gall ei gyfrannu naill ai ochr yn ochr â gofal clinigol neu fel dewis amgen ar gyfer gwella iechyd a llesiant.  Gall cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol gynnwys mathau gwahanol o weithgareddau e.e. gweithgareddau celfyddydol, garddio, cyfeillio, coginio, cyngor ar fwyta’n iach ac amrediad o chwaraeon.




Mae yna nifer o wahanol fodelau ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol ar draws Cymru ac amrywiaeth o gynlluniau lleol ar gael.  Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu darparu gan bobl sy’n gweithio neu’n gwirfoddoli yn y trydydd sector ac maent fel arfer yn cynnwys *Gweithiwr Cyswllt/Llywiwr Gofal/Cysylltwr Cymunedol* sy’n gweithio gyda phobl er mwyn iddynt allu cael mynediad at gymorth lleol. Mae ***Presgripsiynu Cymdeithasol yng Nghymru, Mai 2018*** (Saesneg yn unig) yn adnodd ar y cynnydd sydd wedi’i wneud a’r trefniadau presgripsiynu cymdeithasol sydd mewn grym.  Mae manylion penodol am dystiolaeth ac enghreifftiau o’r cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol sydd ar gael i’w canfod yn ***Gofal Sylfaenol Un***.

## Trefniadau llywodraethu gwybodaeth

**Beth yw hyn?**
Mae llywodraethu gwybodaeth yn canolbwyntio ar sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae’n fframwaith sy’n dod â’r safonau cyfreithiol, moesol ac ansawdd hynny sy’n berthnasol i drin gwybodaeth at ei gilydd. Mae’n berthnasol i wybodaeth sensitif a phersonol, gwybodaeth cyflogeion a chleifion. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb ar gyfer diogelwch y wybodaeth y maent yn cael mynediad ati, yn ei defnyddio a’i storio.

**Y Fframwaith**
Mae yna ofynion cyfreithiol, safonau a chanllawiau ar gyfer trin a thrafod gwybodaeth, ac mae rhai ohonynt wedi’u nodi yn y tabl isod:

| Deddfwriaeth | Canllaw |
|---|---|
| Deddf Diogelu Data 2018 | Cyfraith Gyffredin Dyletswydd Cyfrinachedd |
| Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 | Fframwaith Cydymffurfiaeth ar gyfer Safonau Rheoli Cofnodion Electronig Iechyd a Gofal Cymru |
| Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | Cyfrinachedd: Cod Ymarfer ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – 2005 |
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data | Safonau Rhyngwladol Diogelwch Gwybodaeth – ISO/IEC27001:2013 ac ISO/IEC 27002:2013 |
| Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 | Sicrhau Ansawdd Gwybodaeth |
| Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 | Diogelwch Gwybodaeth |
| Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Gofal iechyd a chymdeithasol 2016 | Information: To Share or not to share? The Information Governance Review (Adolygiad Caldicott2) |
| | WHC (1999) 7 – Preservation, Retention and Destruction of GP General Medical Records Relating to Patients |
| | WHC (2000) 71: For The Record – Managing Records in NHS Trusts and Health Authorities |
| | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) |
| I gael rhagor o wybodaeth ewch i Llywodraethu Gwybodaeth: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru | |

Gall sefydliadau, arferion a chlystyrau ddefnyddio offer hunanasesu syml i fesur cydymffurfiaeth yn erbyn safonau cenedlaethol a nodi a yw gwybodaeth yn cael ei thrin a’i diogelu’n gywir gan ddefnyddio ***Welsh Information Governance Toolkit***

## Diben a pherthnasedd i ddatblygiad clystyrau

Wrth i fodelau gofal newydd ddatblygu ac wrth i'r arfer o cydweithredu ddod yn norm ym maes gofal sylfaenol, mae'n debygol bod systemau clinigol meddygon teulu yn cael eu defnyddio gan weithwyr iechyd proffesiynol amrywiol nad ydynt yn cael eu cyflogi gan y practis i ddarparu gofal uniongyrchol. Felly, mae'n hollbwysig bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ynglŷn â thrin a thrafod gwybodaeth.

Ar gyfer unrhyw waith a wneir ar y cyd, y cyngor a roddir yw y dylid datblygu Cytundeb 'Cyffredin' ar gyfer Rheolydd Data a bod angen i bob Practis yn y clwstwr ei gymeradwyo. Dylai hyn nodi dull cyfreithlon a chyson o rannu gwybodaeth a fydd yn fuddiol i'r claf, ac a fydd yn diogelu cyfrinachedd eu gwybodaeth bersonol.

> Mae'r daflen, FAQ: Cluster working and sharing patient information yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i staff a chleifion ynglŷn â rhannu gwybodaeth a gweithio mewn clystyrau.

## I gael rhagor o wybodaeth…

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn darparu manylion pellach am agweddau amrywiol ar Lywodraethu Gwybodaeth. Gallwch ganfod templedi ac enghreifftiau cyffredin hefyd i gefnogi gofynion deddfwriaeth diogelu data ac i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu gwybodaeth.

Yn ogystal, gallwch gyfeirio at wefan eich bwrdd iechyd i gael rhagor o wybodaeth am drefnadau llywodraethu gwybodaeth.

# Defnyddio data i nodi angen

## Offer Asesu Anghenion Gofal Sylfaenol (PCNA)




Rhyddhawyd prawf cysyniad cychwynnol offer Asesu Anghenion Gofal Sylfaenol yn Ebrill 2019 i gynorthwyo clystyrau i ddefnyddio data i nodi angen a hysbysu eu gwaith cynllunio. I glystyrau, prif fuddiannau'r offer hwn yw:

- *Data craidd i gefnogi'r gwaith o asesu iechyd y boblogaeth* – sydd i'w ganfod ar draws casgliad cymhleth o gynnyrch gwahanol gan ddarparwyr gwybodaeth amrywiol – wedi'i uno mewn un pecyn offer i ddisgrifio anghenion iechyd ar lefelau lleol amrywiol;
- *Crynodeb cryno o gyd-destun strategol perthnasol* yn ôl pwnc, sy'n cefnogi proses alinio gwaith cynllunio ac yn cynnwys diweddariadau ar rai cysyniadau allweddol ar iechyd y cyhoedd;
- *Opsiynau gwella ymarferol, ar sail tystiolaeth* yn ôl pwnc, y gallai unrhyw un ohonynt helpu i ddatblygu cynllun strategol y clwstwr;
- *Ysgogiadau i gasglu elfennau allweddol dulliau agored a chynhwysol o wneud penderfyniadau,* gan gynnwys cydnabyddiaeth o lais dinasyddion, asedau lleol a chyfleoedd partneriaeth, gofynion data ychwanegol a barn gychwynnol ar ystyriaethau cynllunio eraill er mwyn hysbysu trafodaeth ehangach.

Ewch i ***dudalen PCNA*** **i lawrlwytho'r offer** neu i adolygu canllaw cam wrth gam ar ei ddefnyddio.

## Perthnasedd i glystyrau

Mae gwybodaeth iechyd yn disgrifio gwybodaeth mewn cyd-destun penodol, sydd wedi'i dadansoddi (data a thystiolaeth) i hysbysu camau gweithredu neu brosesau gwneud penderfyniadau lleol. Felly bydd **cynlluniau clwstwr gofal sylfaenol cadarn** yn cael eu hysbysu gan ddata sy'n dogfennu anghenion iechyd y boblogaeth a thystiolaeth ar yr ymyriadau effeithiol ar gyfer gwella iechyd a lleihau anghydraddoldeb. Mae'r data a'r dystiolaeth yn galw am ddehongliad gofalus; blaenoriaethu camau gweithredu posibl a gwerthuso cynlluniau gweithredu.

> Mae gan Dimau Iechyd Cyhoeddus lleol a staff datblygu clystyrau mewn byrddau iechyd rôl allweddol yn cefnogi clystyrau i ymgymryd â'r tasgau cynllunio hyn

**Y broses**

Mae'r rhan hon o'r llawlyfr yn rhoi amlinelliad o'r pum cam allweddol i'ch helpu i feddwl sut i ddefnyddio'r data er mwyn nodi angen:

1. **Dechrau gyda chwestiwn da**
2. **Nodi a gwerthuso ffynonellau**
3. **Dadansoddi a dehongli data**
4. **Cyflwyno ac adrodd ar wybodaeth**
5. **Dylanwadu ar benderfyniadau**

## 1. Dechrau gyda chwestiwn da

Yn gyffredinol, mae defnyddio unrhyw ateb yn galw am eglurder o ran y cwestiwn. Felly, mae gwybodaeth yn dechrau gyda phroses ofalus o lunio'r cwestiwn. Gallai sicrhau eglurder o'r fath gynnwys trafod unrhyw rai o'r canlynol:

- **Cefndir** y cwestiwn, y cyd-destun (e.e. ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig) neu unrhyw wybodaeth bresennol am y broblem;
- Y **penderfyniad** y bydd y wybodaeth newydd yn ei hysbysu (er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei cheisio);
- A oes math penodol o **fesur neu gyflawniad allweddol** angenrheidiol (e.e. tuedd amser; cyfres o sleidiau ar gyfer cyflwyniad) ac ar gyfer pa **gynulleidfa** (e.e. aelodau'r clwstwr, y cyhoedd);
- **Pwy** fydd yn gyfrifol am wneud beth i ateb y cwestiwn; gyda phwy y mae angen ymgynghori i gael mewnbwn neu bwy y mae angen ei hysbysu pan fydd gennych ateb;
- **Gweithgareddau** allweddol a hyd posibl pob cam;
- Unrhyw ffiniau ynghylch **cwmpas** y cwestiwn, er enghraifft cyfyngiadau daearyddol;
- Unrhyw **ffactorau llwyddiant critigol** (er enghraifft mynediad uniongyrchol at ffynonellau data).

Nid oes angen eglurder bob amser. Er enghraifft, efallai y nodir archwiliad mwy achlysurol o'r data o brosiect er mwyn helpu i nodi gofynion data mwy penodol. Mewn achosion o'r fath, mae arbenigwyr gwybodaeth yn debygol o rybuddio am y peryglon o or-ddadansoddi'r data oherwydd y tebygolrwydd o gynhyrchu cysylltiadau sy'n arwyddocaol yn ystadegol (ond "annealladwy") drwy siawns yn unig.

## 2. Nodi a gwerthuso ffynonellau data

Mae cynnyrch data gwybodaeth iechyd sy'n berthnasol i ofal sylfaenol yn cael eu cynhyrchu gan nifer o wahanol sefydliadau yng Nghymru. Mae gwybodaeth am y cynnyrch sydd ar gael gan ddarparwyr sefydledig ar gael drwy'r dolenni canlynol (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

- Tîm Dadansoddol yr Arsyllfa (OAT) [dolen]
- Gwasanaeth Tystiolaeth Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (OES) [dolen]
- Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru (WCISU) [dolen]
- Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) [dolen]
- Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru (NWIS) [dolen]; gan gynnwys Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol [dolen]
- Uned Cymorth Presgripsiynau Dadansoddol Cymru (WAPSU) [dolen]
- Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru [dolen]
- Partneriaethau Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) [dolen]
- Banc Data SAIL [dolen]

Mae'r rhestr uchod yn cynnwys yn bennaf yr hyn a elwir yn "allbynnau arferol" h.y. cynnyrch sy'n defnyddio data sy'n cael ei gasglu unwaith ond sy'n cael ei ddefnyddio'n aml. Mae ffynonellau data eraill (eilaidd) neu ddadansoddiadau wedi'u prosesu ymlaen llaw yn cynnwys gwefannau nad ydynt yn canolbwyntio ar wybodaeth (e.e. bwrdd iechyd, elusen ac yn y blaen) ac adroddiadau asesu (e.e. asesiadau am y boblogaeth leol neu lesiant). Efallai y bydd angen data arnoch o ffynonellau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, er enghraifft awdurdod lleol neu felin drafod. Efallai y bydd angen data ansoddol (naratif) arnoch yn hytrach na feintiol (rhifau) - neu'r ddau fath - yn ddibynnol ar natur eich cwestiwn.

Felly, mae'n bosibl bod y data sydd ei angen arnoch ar gael – ond gall fod yn her canfod y geiriosen rydych ei heisiau yn y 'salad ffrwythau' o ddewis. Ymhlith yr opsiynau i liniaru'r her hon mae:

- Anogir clystyrau a defnyddwyr eraill data sylfaenol i ofyn am gymorth gan eu tîm iechyd y cyhoedd lleol [dolen] i nodi'r ffynonellau gwybodaeth mwyaf perthnasol ac i gael cyngor ar y ffordd gorau i'w defnyddio.
- Ar gyfer cyfeirio at gynnyrch data/gwybodaeth sy'n berthnasol yn benodol i ofal sylfaenol, cyfeiriwch at y *compendiwm gwybodaeth gofal sylfaenol* ar Gofal Sylfaenol Un Cymru [dolen].
- Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal cyfres o dudalennau pwnc sy'n dod â gwybodaeth ynghyd am gynhyrchion yr Arsyllfa, gwefannau

- allweddol, ffynonellau data allweddol, ffynonellau tystiolaeth allweddol a ffynonellau tystiolaeth a data ychwanegol [dolen].

Os byddwch yn dymuno dethol ffynonellau yn uniongyrchol, gallai cwestiynau sgrinio sylfaenol fod yn ddefnyddiol:

a) A yw’n **berthnasol** i’r cwestiwn hwn?
b) A yw’n ddigon **cywir** (a fydd yn ateb y cwestiwn o fewn yr adnoddau)?
c) A yw’n ddigon **diweddar**?

**Beth os yw’n ymddangos nad yw’r data sydd ei angen arnoch ar gael unrhyw le?**

Weithiau ni fyddwch yn gallu canfod ffynhonnell ddata sy’n bodoli eisoes sy’n pasio’r cwestiynau sgrinio hyn. Ymhlith yr opsiynau mae:

- Creu amcangyfrifon synthetig (e.e. ymarfer lleol ar sail canlyniadau arolwg cenedlaethol);
- Defnyddio mesurau procsi (e.e. gallai lefelau yfed alcohol ragweld niwed o gamddefnyddio alcohol);
- Cynnal proses casglu data pwrpasol (e.e. cynnal arolwg, cynnal archwiliad, asesiad anghenion iechyd sy’n canolbwyntio ar fater penodol);
- Derbyn nad oes unrhyw ddata addas ar gael nac adnoddau digonol ar gyfer casglu gwybodaeth newydd.

Gall datblygu ymwybyddiaeth dda o gyfyngiadau ffynhonnell ddata benodol fod yn heriol. Mae’n werth ystyried y canlynol fel rhestr wirio:

- Penodoldeb (y data a gasglwyd at ddiben arall);
- Sensitifrwydd (allwn ni ganfod y newid yr ydych yn chwilio amdano?);
- Gwerth rhagfynegol (rhagweld afiechyd yn gywir);
- Perthnasedd (i’r cwestiwn sy’n cael ei holi);
- Amseroldeb (sy’n adlewyrchu’r sefyllfa bresennol);
- Cyflawnrwydd (disgrifiad o’r boblogaeth dan sylw);
- Cynrychioldeb (os yw’n sampl, a yw’r data yn adlewyrchu amrywiad);
- Cywirdeb a dilysrwydd (adlewyrchiad gwirioneddol a dangosydd sy’n ddilys yn glinigol);
- Cysondeb (dros amser neu gyda ffynonellau data eraill cysylltiedig);
- Ansawdd codio/safonau data;
- Proses sicrhau ansawdd (y broses glanhau data).

## 3. Dadansoddi a dehongli data

Gyda'r ffynhonnell/ffynonellau data a nodwyd, y cam nesaf yw cynnal dadansoddiad drwy ddefnyddio gwybodaeth epidemiolegol ac ystadegol mewn cydweithrediad â mewnwelediad clinigol/lleol ar gyfer dehongliad â gwerth ychwanegol. Gan dybio y bydd y rhan gyntaf yn cael ei dirprwyo i ddadansoddwr, ymhlith y cwestiynau defnyddiol i hysbysu eich cytundeb ar gyfer y dull arfaethedig mae'r canlynol:

- A ydym yn cynnig y mesur canlyniad cywir (e.e. nifer, cyfradd, ods)?
- Ydym ni'n mynd i edrych ar y data yn ôl person, lle neu amser?
- Os ydym yn gwneud cymariaethau ar sail ardal, sut y bydd hyn yn cael ei safoni i ystyried amrywiaeth yn nodweddion y boblogaeth (e.e. cyfradd safonol oed)?
- A ydym yn defnyddio'r dull ystadegol cywir?
- A yw gwybodaeth adnabyddadwy cleifion wedi'i diogelu?
- A fyddwn yn defnyddio templedi (e.e. Excel) er mwyn helpu i sicrhau ansawdd allbynnau/darparu system fewnol ar gyfer gwirio camgymeriadau?

Pan fydd y dadansoddiad wedi'i gwblhau, efallai y bydd y cwestiynau technegol canlynol yn ddefnyddiol wrth ddehongli'r canlyniadau gyda'ch dadansoddwr:

- A oedd y data yn addas ar gyfer trin data (e.e. materion codio, bandio, defnyddio amrywiadau synthetig a allai leihau'r gwerth, ac yn y blaen)?
- A oedd unrhyw effeithiau o ddata wedi'i atal (e.e. rhifau isel wedi'u heithrio)?
- A yw ystadegau cryno yn cymylu'r gwahaniaethau (e.e. wrth gymharu ardaloedd, mae'n bosibl na fydd sgôr amddifadedd cyffredinol yn adlewyrchu amrywiaeth eang o fewn ardal)?
- A oes unrhyw ffynonellau posibl o ddryswch (amrywiad ychwanegol sy'n dylanwadu ar gyswllt rhwng amrywiaethau o ddiddordeb) neu ragfarn?
- Sut ydym ni'n penderfynu a yw canfyddiadau yn arwyddocaol (e.e. defnyddio cyfyngau hyder neu werthoedd-p) neu'n digwydd drwy siawns?
- A oes gennym fwy o ddiddordeb mewn amcangyfrif pwynt neu duedd amser?
- A yw'r canlyniadau yn cyfateb ag unrhyw ymchwil neu dystiolaeth leol sy'n bodoli eisoes?
- A oes cyfleodd i groesgyfeirio ffynonellau data, i ddilysu canfyddiadau ein dadansoddiad neu ddarparu darlun mwy cyflawn?

Mae dehongli hefyd yn golygu ystyried yr hyn y gallai data ei awgrymu (yn y cyd-destun y bydd yn cael ei ddefnyddio) ac ar gyfer pwy y mae'r goblygiadau hyn yn bwysig (gallai fod gan wahanol grwpiau safbwyntiau gwahanol). Gallech:

- Holi staff/pobl leol am eu dehongliad hwy, oherwydd mae angen cyfradd uchel o gynefindra ar gyfer rhai mathau o ddata (e.e. Practisau meddygon teulu yn uno; dalgylchoedd ysbytai gwasanaeth penodol, ffiniau rhwydwaith canser lleol, ac yn y blaen);
- Holi clinigwyr ynglŷn â materion clinigol (e.e. ar gyfer mewnwelediadau ar faterion codio, arwyddocâd clinigol – yn hytrach nac ystadegol – canlyniadau, ac yn y blaen);

## 4. Cyflwyno ac adrodd data fel gwybodaeth

Mae pecynnu canlyniadau dadansoddiad i ffurf cyflwyniad neu adroddiad ar gyfer rhanddeiliaid er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r data yn galw am fedrusrwydd. Er enghraifft, gallai siartiau gynnwys y rhan fwyaf o'r elfennau canlynol:

- **Teitl** disgrifiadol (a rhif ffigur, os yw ar gyfer adroddiad).
- Nodyn ar **ffynhonnell** y data a'r **flwyddyn** (e.e. QOF 2017-18, gan nodi y gallai'r flwyddyn gyhoeddi fod yn wahanol i'r flwyddyn y mae'r data yn perthyn);
- Y **boblogaeth** y mae'r data yn perthyn (e.e. preswylwyr awdurdod lleol neu boblogaeth sydd wedi cofrestru yn y clwstwr);
- Labeli **echel** a **chyfres**;
- **Unedau** (e.e. cyfrif bras, cyfradd, %, ac yn y blaen);
- **Gwerthoedd** ar bob cyfres (pan na fydd tabl data ar gael);
- **Cyfyngau hyder** (e.e. ynghylch cyfran mynychder).

Mae angen defnyddio gwybodaeth ar gyfer testun yn ogystal â siartiau neu dablau. Mae rhai awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu deallus (e.e. ar gyfer achos busnes) yn cynnwys:

- Addasu'r arddull ar gyfer y **gynulleidfa** arfaethedig;
- Addasu'r cynnwys i'r **penderfyniad**;
- Bod yn **gyson** (e.e. bylchau, priflythrennau) gan roi sylw i sillafu a gramadeg (mae hyn yn dangos gofal wrth gynhyrchu'r testun);
- Bod yn **ddethol** yn nhermau ar beth yr ydych yn rhoi sylw (gan geisio creu mwy o arwyddion a llai o sŵn);

- Defnyddio **strwythur** dogfen glir;
- Cyfeirio at bob ffigur a thabl sydd wedi'u cynnwys yn y testun;
- Sicrhau bod tablau yn derbyn yr un sylw at fanylder â siartiau;
- Nodi unrhyw **gyfyngiadau** pwysig o ran y data neu **gafeatau** dehongli yn y testun.

Gallai'r pwyntiau canlynol fod yn ddefnyddiol wrth gyfleu amrywiad lleol o safbwynt cymharydd:


- Mae **amrywiad** yn ffenomen naturiol a gall fod yn iach. Er enghraifft, gall fod yn ganlyniad bwriad arloesedd mewn lleoliadau gofal sylfaenol sy'n ceisio profi gwelliannau i brosesau neu gyflawni canlyniadau gofal gwell;
- Gellir cyfeirio at amrywiad a welwyd (neu'n fwy penodol, a fesurwyd) mewn cyd-destun gofal iechyd fel **anghydraddoldeb**;
- Gelwir anghydraddoldeb y gellir ei osgoi ac sy'n anghyfiawn yn gymdeithasol fel **anghydraddoldeb,** a gelwir hyn weithiau hefyd yn amrywiad diangen.

- Nid yw dadansoddiad yn darparu **esboniad** am yr hyn a allai gyfrif am hyn ar lefel y dangosydd. Mae yna lawer o resymau posibl dros amrywiad – rhai cadarnhaol a negyddol, er enghraifft cyfansoddiad demograffig; daearyddiaeth a'i heffaith ar fynediad at wasanaethau; gweithgareddau gwella ansawdd; gwybodaeth am arfer gorau; argaeledd arbenigedd gwella ansawdd; cryfder y dystiolaeth ar gyfer ymyriadau gwella effeithiol; materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd; ac yn y blaen;
- Y rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol lleol sydd yn y sefyllfa orau i adlewyrchu ac ystyried (mewn amgylchedd cefnogol **adolygiad gan gymheiriaid**) perthnasedd esboniadau posibl am unrhyw amrywiad a nodir mewn dadansoddiad;
- Pan fydd amrywiad yn amlwg, y cam cyntaf bob amser ddylai i **ddilysu** cywirdeb y dadansoddiad drwy ymgynghori â ffynhonnell wreiddiol y data; mae camgymeriadau anfwriadol yn bosibl. Mae deall bod amrywiad a ddangosir gan ddadansoddiad yn "ddyfaliad gorau" ar un pwynt mewn amser. Mae amrywiad yn fwy symudol fel yr awgryma'r ciplun hwn, felly gallai mesuriad ar bwynt arall mewn amser ddangos darlun gwahanol.

## 5. Defnyddio data i ddylanwadu ar benderfyniadau

Mae gorlwytho gwybodaeth, data sy'n gwrthdaro, hen ffigurau, cafeatau anhysbys, ffeithluniau cymhleth a chyflwyniad gwael yn enghreifftiau o'r ffactorau a all lesteirio penderfyniadau sy'n cael eu hysbysu gan ddata. Fodd bynnag, nid data (neu dystiolaeth) sy'n cael ei gyflwyno fel cyngor technegol, yw'r unig ddylanwad ar benderfyniadau. Mae dylanwadau eraill yn cynnwys credoau personol, barn y cyhoedd ac ystyriaethau gwleidyddol (lleol neu genedlaethol).

Yn y pen draw, mae'r ffactorau hyn gyda'i gilydd yn creu penderfyniadau y gellir eu nodweddu mewn gwahanol ffyrdd, fel y'u hamlinellwyd gan fatrics Stacey (2002).




- Mewn sefyllfaoedd lle mae sicrwydd rhesymol ynglŷn â'r hyn mae'r data/tystiolaeth yn ei ddweud wrthym, ac mae lefel dda o gytundeb barn ymhlith y rhai sy'n ei ddehongli, mae'r broses o wneud penderfyniadau yn dueddol o fod yn syml neu'n rhesymegol.
- Mae llai o gytundeb ynghylch data/tystiolaeth gref yn arwain at wneud penderfyniadau gwleidyddol.
- Mae llai o ddata/tystiolaeth gymhellol ym mhresenoldeb canlyniadau barn wedi'u halinio yn arwain at wneud penderfyniadau beirniadol.

## Cynllunio’r gweithlu

### Beth yw hyn?

Mae cynllunio’r gweithlu yn broses sy’n nodi’n systemataidd yr hyn sydd ei angen ar sefydliad yn nhermau maint, sgiliau ac amrywiaeth ac ansawdd ei weithlu, a’i fod wedi’i drefnu yn y ffordd gywir, o fewn cyllideb er mwyn cyflawni amcanion y sefydliad.

### Pwy sy’n gwneud hyn?

Er y gallai cynllunio’r gweithlu ymddangos yn syml, mae’n cael ei gynnal mewn amgylchedd cymhleth a gallai gymryd mwy o amser i roi llawer o’r camau gweithredu a’r atebion a nodwyd ar waith. Efallai y byddwch yn dymuno gofyn am gyngor gan rywun ag arbenigedd cynllunio’r gweithlu, naill ai ym maes gofal sylfaenol neu eich Bwrdd Iechyd. Mae gan bob Bwrdd Iechyd dîm Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, gyda’r arbenigedd i gynghori ac, mewn rhai achosion, eich helpu i gynllunio eich gweithlu.

Yn hanesyddol, roedd y gwaith strategol o gynllunio gweithlu GIG Cymru yn un o swyddogaethau Gwasanaeth y Gweithlu, Addysg a Datblygu (WEDS) hyd nes y daeth yn rhan o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) ym mis Hydref 2018. Gan eistedd ochr yn ochr â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, mae gan HEIW rôl flaenllaw yn addysg, hyfforddiant, datblygu a llunio’r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.

### Diben a pherthnasedd i ddatblygiad clystyrau

Mae’r newidiadau sylweddol i ddemograffeg y boblogaeth a’u hanghenion gofal iechyd yn golygu bod angen i’r gweithlu fod yn addas i’r diben er mwyn gallu ymateb i anghenion ar unwaith, ac addasu’r un pryd er mwyn cyflenwi modelau gofal yn y dyfodol. Mae sicrhau’r cydbwysedd cywir yn galw am ddealltwriaeth gadarn o’r hyn sydd ei angen ar y boblogaeth a natur pwysau lleol a chenedlaethol ar y gweithlu a’r hyn y gellir ei wneud i fynd i’r afael â hwy yn y tymor byr a’r tymor hwy.

Yn 2019, daeth cynllunio’r gweithlu yn rhan annatod o gynlluniau canolraddol a thymor canolig clystyrau. Mae prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio’r gweithlu yn hollbwysig i ddatblygiad clystyrau, gan alluogi clystyrau i gyflenwi’r gwasanaethau sydd eu hangen i ddarparu gofal cleifion o safon i’r poblogaethau maent yn eu gwasanaethu.

**Y broses cynllunio'r gweithlu:**




Mae yna nifer o adnoddau i gynorthwyo gyda'r gwaith cynllunio'r gweithlu.

Yng Nghymru, cynigiwyd dull cynllunio ar ffurf *Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.*

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio'r broses cynllunio'r gweithlu fel proses chwe cham:

| | |
|---|---|
| *Cam 1:* | Deall eich poblogaeth / amgylchedd gofal iechyd |
| *Cam 2:* | Siarad gyda'ch rhanddeiliaid |
| *Cam 3:* | Creu gweledigaeth a diffinio canlyniadau |
| *Cam 4:* | Rhagweld cyfluniad gwasanaethau a'r gweithlu yn y dyfodol |
| *Cam 5:* | Cyfleu'r camau gweithredu neu'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni gweledigaeth a chanlyniadau |
| *Cam 6:* | Disgrifio prosesau llywodraethu a chyflenwi parhaus. |

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith cynllunio gweithlu yn y clwstwr, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi datblygu templedi amgen er mwyn cynorthwyo clystyrau gyda chynlluniau eu gweithlu. Mae'r rhain yn disgrifio cynllunio'r gweithlu mewn deuddeg cam syml, sy'n seiliedig ar y broses chwe cham, ond sydd wedi'i hailgynllunio i dywys clystyrau drwy broses feddwl i'w galluogi i ddatblygu eu cynllun ar gyfer eu gweithlu.

**Am wybodaeth bellach...**

Cyfeiriwch at eich Bwrdd Iechyd chi, a fydd yn gallu darparu gwybodaeth bellach i chi am y templedi a chanllawiau sydd ar gael a'u hargaeledd i'ch helpu i gynllunio'r gweithlu ar lefel practis neu lefel clwstwr.

Mae gwybodaeth am y gwahanol fathau o rolau, sgiliau ac arbenigedd y gallwch eu hystyried wrth ddatblygu eich gweithlu ar gael isod:

- Compendiwm a Rolau a Modeli Newydd mewn Gofal Sylfaenol
- Multi-Professional Roles within the Transforming Primary Care Model in Wales
- Royal College of General Practitioners – An Expanded Team
- Primary Care Cluster Governance, Good Practice Guide Resource Pack v6, Workforce Planning

**Cofiwch…**

Mae'n werth gofyn am gymorth arbenigol i baratoi'r cynlluniau ar gyfer eich gweithlu.

Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr â'r adran ar 'gyflogi staff mewn clystyrau' a 'defnyddio data i nodi anghenion y boblogaeth'.

## Cynigion ac achosion busnes

### Beth yw'r rhain?

Cynnig neu achos busnes yw'r ffordd yr ydych yn profi i'r person neu sefydliad yr ydych yn gofyn iddynt am fuddsoddiad bod y cynnyrch neu brosiect yr ydych yn ei gynnig yn fuddsoddiad cadarn. Mae'r term cynnig neu achos busnes yn dueddol o gael ei ddefnyddio yn gyfnewidiol a bydd eu fformat a'r manylion ynddynt yn amrywio yn ôl cynulleidfa'r cynnig neu'r achos busnes. Os yw'r syniad o ysgrifennu achos busnes yn eich brawychu, gallai ei ystyried fel isod ei wneud yn ymarfer mwy syml a haws ei reoli.

**Mae cynnig neu achos busnes yn:**

- **Cyfiawnhad**
  Yn ei hanfod, cynnig neu achos busnes yw eich cyfiawnhad chi dros wneud rhywbeth; esboniad o pam y dylai eich practis neu glwstwr chi ymgymryd â phrosiect neu wariant penodol.

- **Dim ond darn o bapur ydyw**
  Dim ond dogfen ydyw fel arfer ar ffurf print. Mae rhai pobl yn cyflwyno achosion busnes gan ddefnyddio cyflwyniadau gweledol neu fideo, ond mae cynigion clwstwr yn dueddol o ganolbwyntio ar y ddogfennaeth sylfaenol. Yn aml, mae'r comisiynydd yn darparu templedi safonol i gynorthwyo gyda datblygiad achos busnes.

- **Gall fod yn syml neu'n gymhleth**
  Nid oes angen i achos busnes gynnwys popeth i fod yn bwerus, ond mae angen iddo ganolbwyntio ar yr hanfodion, sy'n cael eu trafod isod. Gallai gael ei ategu gan ddadl lafar gadarn. Ond efallai na fydd. Gall gynnwys y camau nesaf, ond mae'n bosibl na fydd.

### Diben a pherthnasedd i ddatblygiad clystyrau

Ar draws GIG Cymru, lle mae cyfyngiadau'n bodoli o ran adnoddau, mae angen rhoi ystyriaeth lawn i benderfyniadau cyllid cyn ymrwymo adnoddau i fentrau newydd neu barhaus. Yn aml iawn, mae rhaglenni amrywiol yn gwneud cynnig am yr un llif gyllid ac mae angen blaenoriaethu cynigion. Pryd bynnag y gwneir cais am adnoddau newydd neu bellach, gall cynigion neu achos busnes cadarn helpu i sicrhau cymeradwyaeth a, phan ofynnir amdanynt, adnoddau ariannol

gan randdeiliaid clwstwr. Mae'n gyffredin i fyrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill ofyn am gynnig / achos busnes ysgrifenedig cyn ymrwymo adnoddau.

## Paratoi'r cynnig / achos busnes

Mae yna nifer o dempledi a dulliau ar gyfer ysgrifennu cynigion a / neu achosion busnes ac mae'n bosibl y bydd gan eich rhanddeiliad un penodol mewn golwg.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyn i chi ddechrau** | Gofynnwch i'r rhanddeiliad a oes ganddynt **dempled safonol** i chi ei ddefnyddio neu a oes angen i'r cynnig neu achos busnes ddilyn fformat penodol neu gynnwys gwybodaeth benodol | Bydd hyn yn arbed amser gwerthfawr i chi yn ceisio nodi gwybodaeth nad oes ei hangen gan y person sy'n darllen yr achos busnes |
| **Adrodd stori** | Mae'r ffeithiau a'r ffigurau yn bwysig ond yr hyn fydd yn cysylltu â'ch cynulleidfa ar lefel emosiynol yw'r stori. Gallai hyn fod mewn person wrth gyflwyno eich cynnig neu'n ysgrifenedig fel rhan o'r ddogfennaeth. | Pwysleisiwch yr angen. Cyfeiriwch at adborth defnyddwyr neu storïau cleifion er mwyn dod â'ch cynnig yn fyw. Pan fyddwch yn cyflwyno'r ateb, gallwch greu stori newydd; sut y bydd pethau ar ôl i'ch ateb gael ei weithredu. |

**Ysgrifennu'r cynnig – yr hanfodion**

| **1. Beth yw eich achos?** |
|---|
| ▪ Dyma yw'r cyfiawnhad dros y buddsoddiad.<br>▪ Nid oes rhaid iddo fod yn gymhleth ond mae'n rhaid sicrhau ei fod yn cyfleu'r neges yn briodol.<br>▪ Disgrifiwch y broblem yr ydych yn ceisio mynd i'r afael â hi.<br>▪ Dylech gefnogi hyn gydag unrhyw dystiolaeth neu ddata ategol.<br>▪ Sut mae hyn yn cysylltu â blaenoriaethau'r rhanddeiliaid/alinio gyda'r polisi? |
| **2. Rhowch opsiynau ac atebion posibl** |
| ▪ Dylech gynnwys unrhyw opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem / angen.<br>▪ Disgrifiwch rai o'r atebion posibl.<br>▪ Beth fyddai'n digwydd pe na fyddai unrhyw beth nac unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud. |
| **3. Rhestrwch yr effaith a'r buddiannau disgwyliedig** |
| ▪ Beth fydd effaith eich cynnig?<br>▪ Pa ganlyniadau cadarnhaol a ddisgwylir?<br>▪ Meddyliwch y tu hwnt i gwmpas eich practis chi.<br>▪ A oes buddiannau i'w gwireddu rhywle arall gan wahanol ran o'r system iechyd a gofal?<br>▪ Sut allech chi feintioli'r rhain?<br>▪ A oes tystiolaeth wedi'i chyhoeddi i ategu eich honiadau? |
| **4.** |
| ▪ Beth yw cwmpas y cynnig?<br>▪ Beth fydd y brif nod?<br>▪ Beth yw'r amserlen ar gyfer ei gyflawni?<br>▪ Pa gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys i gyflawni'r nod hwn? Pa rai sydd wedi'u heithrio? (am eu bod yn ddiangen neu dylid eu cadw ar gyfer prosiect diweddarach)<br>▪ Beth yw'r risgiau o ymgymryd â'r gwaith hwn, yn cynnwys costau manteisgar?<br>▪ Beth yw'r pwynt o ymgymryd â'r risgiau hyn? A yw'r budd yn fwy na'r risg? |
| **5. Disgrifiwch yr adnoddau sydd eu hangen** |
| ▪ Pa adnoddau y gwneir cais amdanynt?<br>▪ Ydych chi'n gofyn am yr holl adnoddau neu a fydd rhai yn dod o ffynonellau eraill?<br>▪ Pa swm o arian sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob adnodd sydd ei angen?<br>▪ Os oes adnoddau llafur neu fuddsoddiad cyfalaf, beth yw'r ystod y gallech dalu am bob adnodd: beth fyddai'r isaf o gymharu â'r uchaf?<br>▪ Esboniwch o ble yr ydych yn disgwyl cael y cyllid? |

| 6. Nodwch amlinelliad o gynllun y prosiect |
| --- |
| I gynnwys:<br>▪ ***Nod cyffredinol*** - cysylltiad clir ac uniongyrchol i'ch problem.<br>▪ ***Amcanion*** - CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol)<br>▪ ***Cwmpas*** – ychydig mwy o fanylion am ffiniau. Beth sydd wedi'i gynnwys/hepgor?<br>▪ ***Amserlennu*** – eich amserlen arfaethedig.<br>▪ ***Cyflawniadau*** – canlyniadau gweladwy, beth yw'r effaith / cynnyrch terfynol disgwyliedig?<br>▪ ***Cerrig milltir*** – a oes camau? Beth sydd angen ei wneud ym mhob cam?<br>▪ ***Mesurau*** - Sut y byddwn yn mesur llwyddiant pob agwedd gyfiawnadwy?<br>▪ ***Cyfathrebu*** — sut a gyda phwy yr ydych yn bwriadu cyfathrebu?<br>▪ ***Staff*** – pwy sy'n cymryd rhan ac yn gweithio'n weithredol ar y prosiect?<br>▪ ***Dibyniaethau*** - Beth yw dibyniaethau'r tasgau yn ein prosiect<br>▪ ***Cyllideb*** — dadansoddiad o'r costau. |
| **7. Y Crynodeb Gweithredol** |
| ▪ Dyma fydd ar ddechrau'r ddogfennaeth ond dylech ei ysgrifennu ar y diwedd.<br>▪ Yn syml, crynodeb un dudalen o'r cynnig.<br>▪ Meddyliwch am eich 'neges werthu' ar bapur, neu lythyr eglurhaol ar gyfer eich CV.<br>▪ Y ffordd symlaf o wneud hyn yw rhoi crynodeb byr o'r:<br>o Broblem<br>o Ateb<br>o Costau a'r elw posibl<br>o Amserlen<br>o Pwy sy'n gysylltiedig |
| **8. Yn olaf** |
| ▪ ***Defnyddiwch y cyfrwng cywir -*** dylech ystyried sleidiau, ffeithluniau, deunyddiau gweledol eraill.<br>▪ ***Pwysleisiwch yr angen***. Ewch yn ôl drwy bob rhan o'ch cynnig a chyfeirio at hyn yn aml.<br>▪ ***Paratowch rai cwestiynau tebygol*** - dylech baratoi eich atebion gydag ystadegau a ffeithiau.<br>▪ ***Defnyddiwch y cyfrwng cywir -*** dylech ystyried sleidiau, ffeithluniau, deunyddiau gweledol eraill.<br>▪ ***Pwysleisiwch yr angen***. Ewch yn ôl drwy bob rhan o'ch cynnig a chyfeirio at hyn yn aml.<br>▪ ***Paratowch rai cwestiynau tebygol*** - dylech baratoi eich atebion gydag ystadegau a ffeithiau. |

**Am wybodaeth bellach a thempledi enghreifftiol……**

- Gweler adran cynllunio prosiect y llawlyfr hwn
- Primary Care Cluster Governance, Good Practice Guide Resource Pack v6 - Datblygu achos busnes a chynllunio prosiect y clwstwr

## Gwaith prosiect

*"Mae nod heb gynllun yn ddim ond dymuniad."*
— Antoine de Saint-Exupéry

Mae GIG Cymru yn gyfrifol am gyflenwi nifer gynyddol o raglenni a phrosiectau gwerth uchel. O ganlyniad, mae staff sydd â gwybodaeth a sgiliau rheoli rhaglenni a phrosiectau yn werthfawr i GIG Cymru.

**Beth yw ystyr gwaith prosiect?**

Mae prosiect yn rhywbeth dros dro; dylai bod ganddo ddechrau a diwedd penodol. Mae prosiect yn gyfres o weithgareddau cysylltiedig sy'n cael eu cynnal i gyflawni canlyniad penodol o fewn amserlen a chyllideb benodol.

Mae cynllunio yn rhywbeth sy'n dod yn naturiol i'r rhan fwyaf o bobl, rydym yn cynllunio pethau bob dydd – rhai ohonynt yn syml fel beth yr ydych yn mynd i'w gael i swper neu sut y byddwch yn cyrraedd y gwaith, i gynllunio mwy manwl megis trefnu gwyliau. Nid yw prosiect yn wahanol iawn i hyn.

**Defnyddio trefnu gwyliau fel enghraifft o brosiect**


Beth ydych eisiau ei gyflawni (NOD) – gwyliau gwych ymhen 12 mis.

Pan fyddwn yn cynllunio gwyliau mae yna bethau allweddol rydym yn eu gwneud:

- Ar ba ddyddiad ydym ni'n mynd?
- Beth yw ein cyllideb?
- Pwy sy'n dod?
- I ble'r ydym ni'n mynd?
- Sut fyddwn ni'n cyrraedd yno?
- Ble fyddwn ni'n aros?

Byddwch yn gwneud rhai pethau yn gynnar (hediadau a gwesty?) rhai yn ddiweddarach (pacio).

Pan fyddwn yn ystyried datblygu amserlen, mae angen dechrau ar y pwynt olaf a gweithio tuag yn ôl. Rydym eisiau mynd i Florida ym mis Medi 2020 felly gallem ddechrau creu amserlen, neu gynllunio'r hyn rydym eisiau ei gyflawni, a gallai fod yn debyg i'r siart isod.




Byddai'r rhan fwyaf o brosiectau syml yn debyg i'r enghraifft hon. Gallai fod angen cynlluniau mwy manwl ar gyfer prosiectau mwy cymhleth.


Mae prosiectau:

- yn unigryw ac nid ydynt yn rhan o brosesau ‘busnes fel arfer’;
- mae ganddynt ddechrau, hyd a therfyn penodol;
- yn cynnwys cyfres o weithgareddau wedi’u diffinio ymlaen llaw a gynlluniwyd i gyflenwi gwasanaeth neu gynnyrch;
- yn defnyddio adnoddau wedi’u diffinio ymlaen llaw;
- yn cyflawni newid;
- yn cynnwys risg.

Nid oes angen i waith prosiect fod yn gymhleth nac yn ddirgelwch ac ni ddylai fod yn rhywbeth i’w ofni. Mae gwaith prosiect neu reoli prosiect yn golygu defnyddio gwybodaeth ac offer i gyflawni’r gofynion ar gyfer y prosiect.

Mae prosiectau bob amser yn cynnwys cyfres o dasgau sy’n galw am adnoddau a sgiliau gwahanol ac adnoddau sy’n cael eu huno i gyflawni nod penodol. Mae’r cyfuniad o adnoddau yn unigryw i’r prosiect ac mae fel arfer yn cynnwys pobl â gwahanol sgiliau, amser, offer, deunyddiau a chyllid.

Fel arfer mae gan brosiectau bum maes allweddol:




Dylai pob maes neu weithgarwch ddilyn cyfres o dempledi* i’w cyflawni, gan ddarparu llwybrau archwilio a llywodraethu ar gyfer y prosiect.

Gellir teilwra dogfennaeth i weddu’r prosiect penodol:

| **Fel arfer byddai prosiect syml yn cynnwys:** |
|---|
| cynllun ar dudalen |
| disgrifiad o’r prosiect |
| strwythur y prosiect |
| dogfen gychwynnol y prosiect (gan gynnwys amserlen y prosiect a chofnod o’r risgiau/materion |
| adroddiadau ar gynnydd a/neu eithriad |
| adroddiad terfynu (gan gynnwys unrhyw werthusiad, gwersi a ddysgwyd a chamau gweithredu dilynol) |

| Gallai fod angen y canlynol ar brosiectau mwy cymhleth: |
|---|
| achos busnes |
| cynllun cyfathrebu |
| map rhanddeiliaid |
| asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd |
| cofnod penderfyniadau |
| adroddiadau bwrdd y prosiect |
| adolygiadau |
| adolygiad o’r buddiannau |

**Am wybodaeth bellach…**

Mae yna nifer o adnoddau da ar gael ar-lein a all roi gwybodaeth fanylach i chi am waith prosiect, ond gallai dull mwy syml fod yn well ar gyfer cynllunio prosiect. Efallai y byddwch yn dymuno dechrau gyda chynllun ar dudalen.

Mae yna lawer o wahanol fathau o hyfforddiant a chymwysterau Rheoli Prosiect ar gael. Isod mae dwy enghraifft adnabyddus sy’n cael eu defnyddio yng Nghymru:

- **PRINCE2** (Prosiectau mewn Amgylcheddau Rheoledig) yw un o’r dulliau mwyaf cydnabyddedig ar gyfer rheoli prosiectau yn effeithiol, sy’n cael ei ddefnyddio’n eang yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat yn y DU.
- **APM** (Y Gymdeithas Rheoli Prosiectau) – maent yn darparu adnodd sy’n amlinellu’r diffiniadau, y termau a’r prosesau a ddefnyddir i reoli prosiect.

Adnodd defnyddiol: Llyfr Gwaith Rheoli Prosiectau Ymarferol (Eliesha Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Delegate workbook
PPM v9 20191004 FI

**Cofiwch…**

Nid oes angen eich bod wedi’ch hyfforddi neu eich bod yn meddu ar gymhwyster rheoli prosiect, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cwmpasu’r camau a defnyddio’r templedi a’r offer i’ch helpu.

B: Offer, technegau ac adnoddau defnyddiol

## Gwerthuso

Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o bwysigrwydd gwerthuso a bydd yn eich cyfeirio at ganllawiau a chymorth pellach.

**Beth yw gwerthusiad?**

At ddiben y llawlyfr hwn, disgrifir gwerthusiad fel:

> *'proses strwythuredig o asesu llwyddiant prosiect/rhaglen i gyflawni ei nodau ac i adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd'*

**Diben gwerthusiad?**

Mae gwerthusiad yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- I asesu a yw prosiect wedi cyflawni ei nodau bwriadedig;
- I ddeall sut mae'r prosiect wedi cyflawni ei nod bwriadedig, neu pam nad yw wedi gwneud hynny;
- I nodi pa mor effeithlon fu'r prosiect yn trosi adnoddau yn weithgareddau, amcanion a nodau;
- I asesu pa mor gynaliadwy ac ystyrlon y bu'r prosiect i'r cyfranogwyr;
- I hysbysu llunwyr penderfyniadau ynghylch sut i adeiladu ar, gwella neu derfynu prosiect.

**Perthnasedd i ddatblygiad clystyrau**

Wrth i glystyrau ddatblygu a phrofi ffyrdd newydd o weithio, mae gwerthusiad yn darparu dull o sicrhau bod newidiadau yn fuddiannau ac mae'n eich galluogi i benderfynu parhau ai peidio, gwella neu roi'r gorau i rywbeth yr ydych yn ei gyflwyno neu'n ei weithredu. Mae gwerthusiad yn hollbwysig er mwyn arddangos gwaith clwstwr, gwerth am arian ac mae'n hollbwysig wrth geisio cyllid ar gyfer parhad neu brif-ffrydio gwasanaethau.

**Adnoddau defnyddiol**

Mae yna nifer o adnoddau amrywiol ar gael i'ch cefnogi i gynllunio a chwblhau gwerthusiad, yn benodol:

Data Cymru

Mae Data Cymru wedi datblygu ***Canllaw i Werthuso*** ar-lein.

Mae adnoddau gwerthuso sy'n cael eu paratoi gan yr Hwb Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn cael eu cynnal ar ***Gofal Sylfaenol Un***.

## Y broses werthuso

Dangosir cynrychiolaeth syml o'r broses werthuso isod:

| Diffinio llwyddiant | Cytuno ar y cwmpas | Pa fath o werthusiad | Pa dystiolaeth | Trefniadau | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|
| *Beth fyddai'n cynrychioli llwyddiant? Beth ydych yn ceisio ei gyflawni?* | *Beth yw'r cwestiwn gwerthuso?* | *Ffurfiannol neu grynodol? (gweler y tabl drosodd)* | *Pa dystiolaeth a/neu ddata sydd ei angen? Beth sydd ar gael? A oes unrhyw brosesau ymchwil arbennig i'w dilyn?* | *Y sgiliau sydd eu hangen, amserlenni, adnoddau, cymorth arbenigol/comisiynwyd* | *Ac felly?*<br><br>*Sut y caiff y canfyddiadau eu rhannu?* |

Bydd angen i chi benderfynu yn gynnar pa fath o werthusiad yr ydych yn dymuno ei gynnal. Mae yna nifer o wahanol fathau o werthusiad ond mae'r dosbarthiad mwyaf cyffredin yn nodi dau fath:

| | Ffurfiannol | Crynodol |
|---|---|---|
| **Nod** | Asesu ymarferoldeb neu bosibilrwydd prosiect, rhaglen, polisi neu ymyrraeth er mwyn gallu ei addasu cyn ei weithredu'n llawn | Asesu'r graddau y mae'r prosiect, rhaglen, polisi neu ymyrraeth wedi cyflawni ei ganlyniad(au) bwriadedig |
| **Diben** | Gwella dysgu | I brofi/darparu tystiolaeth bod y prosiect, rhaglen, polisi neu ymyrraeth yn effeithiol |
| **Pryd** | Mae'n cael ei gynnal cyn ac yn ystod gweithrediad | Mae'n digwydd yn dilyn gweithrediad |
| **Amlder** | Mae'n digwydd ar sail barhaus | Mae'n digwydd ar bwynt penodol mewn amser |

Defnyddir gwerthusiad economaidd yn aml hefyd i asesu gwerth am arian rhaglen neu ymyrraeth.

**Cynllunio eich gwerthusiad**

Er bod gwerthusiad yn cael ei ystyried yn aml fel gweithgarwch ar ddiwedd prosiect, fel arfer mae'n well dechrau ystyried a chynllunio ar gyfer gwerthusiad ar y cyfle cynharaf, fel arfer yn y cam dylunio ac ar ddechrau'r prosiect.

Ar ôl i chi benderfynu ar y math o werthusiad, bydd y camau canlynol yn eich helpu i lunio'r gwerthusiad:

| Cam | Enghraifft |
|---|---|
| **1. Nodi'r cyd-destun** | Beth yw'r cwestiwn gwerthuso?<br>Allwch chi ddisgrifio'r sefyllfa/broblem?<br>Beth yw'r angen/diagnosis y gweithgarwch/poblogaeth? |
| **2. Nodi'r canlyniad / budd** | Beth ydych chi eisiau ei werthuso?<br>Beth yw'r gweithgareddau/buddiannau/canlyniadau mwyaf pwysig/perthnasol y gellir eu priodoli i'r ymyrraeth? |
| **3. Mesur y canlyniad / buddiannau** | Sut allwch chi arddangos llwyddiant?<br>Allwch chi ddiffinio'r gweithgareddau/buddiannau/canlyniadau ac a ydynt yn fesuradwy? |
| **4. Ail-fesur** | Pryd allwch chi a phryd ddylech chi werthuso?<br>Allwch chi gasglu gwybodaeth am y gweithgareddau/buddiannau/canlyniadau dros amser, person a lle? |

I werthuso prosiect, mae'n ddefnyddiol cytuno ar gyfeirnod er mwyn mesur llwyddiant yn ei erbyn. Ffordd ddefnyddiol o ystyried prosiect a'r gwerthusiad yw defnyddio cynrychiolaeth weledol o'r gweithgareddau arfaethedig, yr allbynnau a'r canlyniadau disgwyliedig. Mae yna fodelau a fframweithiau amrywiol i'ch cynorthwyo gyda hyn, ond un o'r math symlaf o fframwaith a ddefnyddir yn aml yw'r **Model Rhesymeg**.

Mae model rhesymeg yn adrodd stori prosiect neu raglen mewn diagram a rhai geiriau. Mae'n dangos cysylltiad cyffredinol rhwng yr angen/anghenion rydych wedi'u nodi, yr hyn yr ydych yn ei wneud a sut mae hyn yn gwneud gwahaniaeth, e.e. i unigolion a chymunedau.

Mae enghraifft o Fframwaith Model Rhesymeg isod:

| Mewnbwn | Gweithgareddau | Allbynnau | Canlyniadau | Effaith |
|---|---|---|---|---|
| Adnoddau – deunydd, pobl amser | Os oes gennych fynediad at yr adnoddau, pa weithgareddau ydych chi'n bwriadu eu cynnal | Os byddwch yn cyflawni eich gweithgareddau arfaethedig, a fyddwch yn cyflenwi swm bwriadedig y cynnyrch/ gwasanaeth | Os byddwch yn cyflawni eich gweithgareddau arfaethedig, yna bydd buddiannau penodol | Os cyflawnir y buddiannau hyn yna bydd newidiadau ac effeithiau penodol yn digwydd. |

## Gwella ansawdd


### Beth yw ansawdd?

Yn syml, ansawdd yw cyflawni'r amcanion a ddymunir yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol, gyda phwyslais ar gyflawni a bodloni'r anghenion a'r hyn sy'n "bwysig" i gleifion. Nid yw o reidrwydd yn golygu'r ffordd ddrutaf o wneud pethau. I'r gwrthwyneb, mae'n alwad am effeithlonrwydd a gwerth. Nid yw o reidrwydd yn golygu darparu eitemau neu wasanaethau moethus. Mae'n gynnyrch neu wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n deg, amserol, effeithlon, effeithiol a diogel, ac sy'n gwerthuso a gwella yn barhaus.

- Mae ansawdd yn ddiriaethol ac mae'n fesuradwy. Gellir rhannu system gofal iechyd yn dair elfen: strwythur (adnoddau dynol a ffisegol),
- Proses (gweithdrefnau a gweithgareddau gofal a gwasanaethau),
- Canlyniad (canlyniadau gofal a gwasanaethau).

Mae gan bob un o'r elfennau hyn nifer o elfennau cyfrifiadwy y gellir eu diffinio a'u mesur yn gywir. Ac, os gellir eu mesur, gellir eu gwella!

**Pam canolbwyntio ar ansawdd?**



**Beth yw gwella ansawdd?**

Un ffordd o wella canlyniadau yw drwy ddefnyddio offer a thechnegau Gwella Ansawdd. Gellir diffinio **Gwella Ansawdd** fel y broses a'r is-brosesau o leihau amrywiaeth mewn perfformiad neu amrywiaeth oddi wrth safonau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i gleifion, staff a rheoli adnoddau yn effeithiol. Y ffocws allweddol yma yw gallu'r broses hon i *nodi a gweithredu* ar amrywiad. Mae'n broses o wella neu ailgynllunio prosesau i reoli canlyniadau. Mae'n rhaid i weithgareddau fod yn seiliedig ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel y grym sy'n llywio unrhyw welliannau. Mae yna nifer o weithgareddau, sgiliau ac offer penodol sydd eu hangen er mwyn gallu gwella ansawdd.

Y dull a'r ymagwedd yn GIG Cymru ar gyfer gwella ansawdd yw'r Model ar gyfer Gwella a Chylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu (PDSA). Datblygwyd hyfforddiant yn y dull hwn a'i gysyniadau gan gynrychiolwyr o bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yng Nghymru ac mae'n cael ei ddarparu drwy raglen genedlaethol **Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd** ar draws GIG Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol a rhai sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac mae'n cael ei ymgorffori mewn rhaglenni dysgu a datblygu eraill yn lleol, gan gynnwys cwricwla Sefydliadau Addysg Uwch. Mae Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd yn darparu iaith a dull cyffredin a chyson ar gyfer gwella ansawdd ar draws Cymru, sy'n seiliedig ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Y Model ar gyfer Gwella gyda Chylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu**


Datblygwyd y Model ar gyfer Gwella gyda chylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu gan Associates in Process Improvement (www.apiweb.org) ym 1996 a chafodd ei fabwysiadu gan GIG Cymru fel ein map a'n cwmpawd ar gyfer gwella.

Mae'r Model ar gyfer Gwella a'r cylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu wedi'u strwythuro o amgylch dwy brif adran: Mae'r adran gynaf, sydd ar ffurf 3 chwestiwn, yn darparu cyfeiriad i ni; ein sefyllfa bresennol yn erbyn y cyfeiriad hwnnw; ac yn olaf, syniad o sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno:

1. Beth ydym yn ceisio ei gyflawni?
   *Dyma yw'r NOD ac mae'n darparu cyfeiriad.*

2. Sut fyddwn ni'n gwybod bod newid yn welliant?
   Y rhain yw'r MESURAU ac mae'n disgrifio ein sefyllfa bresennol ac yn y dyfodol.

3. Pa newidiadau y gallwn eu gwneud a fydd yn arwain at welliant? Y rhain yw'r NEWIDIADAU sy'n dweud wrthym sut yr ydym yn mynd i gyrraedd yno.




***Y Model ar gyfer Gwella (Y Sefydliad Gwella Gofal Iechyd) gyda Chylchoedd Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu***

Am wybodaeth bellach:

- Gweler y Canllaw Gwella Ansawdd
- I ddarllen mwy am sut y gallwch gael cymorth ar gyfer y tîm 1000 o Fywydau gyda gwella ansawdd, ewch i 1000oFywydau
- I ddysgu mwy am Wella Ansawdd, cysylltwch â Tîm Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd 1000 o Fywydau yn 1000LivesImprovement@wales.nhs.uk
- Dilynwch ni ar Twitter @1000LivesWales

## Rhestr geirfa

P'un a ydych ond wedi dechrau gweithio i'r GIG yn ddiweddar neu os ydych wedi bod yn gweithio yn y sector iechyd ers cryn amser, gall fod yn anodd dod i arfer â rhai o'r iaith a'r termau sy'n cael eu defnyddio. Defnyddir jargon neu dermau gwahanol yn aml i ddisgrifio'r un pethau.

Mae'r Ganolfan Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol wedi datblygu'r rhestr termau hon i esbonio'r termau hyn mewn mwy o fanylder. Paratowyd hyn yn wreiddiol i gefnogi'r Rhaglen Ysgogi Arloesi ond mae'n berthnasol a defnyddiol i unrhyw un sy'n gweithio yn neu gyda GIG Cymru.

Mae'r rhestr geirfa hon yn darparu diffiniadau ac esboniadau byr o'r termau a ddefnyddir yn rheolaidd yn GIG Cymru, ac mae'n cael ei chyflwyno mewn dwy adran.

- **Adran 1 – Rhestr o Dermau Cyffredinol**
- **Adran 2 – Rhestr o Dermau o Ddangosyddion a Gwerthusiad**

Mae'r rhestr geirfa sy'n cael ei chynnal ar Gofal Sylfaenol Un ar gael yma.

## Compendiwm adnoddau

Mae rhestr o'r holl adnoddau, dogfennau cyhoeddedig a dolenni y cyfeirir atynt yn y tri chanllaw a dolenni er mwyn cael mynediad atynt ar-lein ar gael yn y ***Crynodeb a'r canllaw darllen cyflym***.

Mae'r **Llawlyfrau Gweithio mewn Clystyrau yng Nghymru** wedi'u trefnu yn dri chanllaw ar wahân. Cawsant eu dylunio i ategu ei gilydd a byddant yn fwyaf effeithiol o gael eu defnyddio gyda'i gilydd, gan rannu gwybodaeth, syniadau a chyngor i gefnogi gweithio'n effeithiol mewn clystyrau. Mae atgyfeiriadau at wybodaeth ac adnoddau yn cael eu darparu hefyd, er mwyn creu'r amodau gorau ar gyfer gweithio mewn clystyrau a datblygu clystyrau.













I lawrlwytho'r llawlyfrau, ewch i adran Adnoddau Gofal Sylfaenol Un.

Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i nodi'r ffynonellau gwybodaeth a syniadau. Os ydych yn credu bod unrhyw beth o'i le, os hoffech roi sylwadau neu ddarparu mewnbwn i unrhyw ddiwygiadau o'r llawlyfrau, cysylltwch â ni yn PrimaryCare.One@wales.nhs.uk